# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 14 Mawrth 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Fformwla Barnett (Adolygiad ar Sail Angen)

**C7 Glyn Davies:** Pa ymchwil y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'i gomisiynu i adolygu fformwla Barnett ar sail angen? (OAQ4057)

**Y Prif Ysgrifennydd (Rhodri Morgan):** Er mwyn ystyried effeithiau adolygiadau i fformwla Barnett byddai angen inni ymgymryd ag astudiaeth lawn o'r anghenion gwariant perthnasol. Nid oes gennyf fwriad i gomisiynu ymchwil o'r fath ar hyn o bryd ond yr ydym, wrth gwrs, yn cadw'r mater dan sylw.

### Arolwg o'r Gwasanaethau Cynnal Busnesau (Sylwadau)

**C8 Janet Ryder:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi derbyn unrhyw sylwadau oddi wrth unigolion a mudiadau ynghylch yr angen am arolwg o'r gwasanaethau cynnal busnesau yng Nghymru? (OAQ4046)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni dderbyniais unrhyw sylwadau ar y mater hwn yn ddiweddar. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn cychwyn arolwg o'r pwnc hwn, fodd bynnag, a fydd, ymysg pethau eraill, yn archwilio'r trefniadau presennol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cynnal busnes ac yn ystyried y cyfle i'w gwella. Croesawaf yr arolwg amserol hwn a fydd o gymorth i sicrhau bod y systemau mwyaf effeithiol ar waith gennym i amlhau manteision Amcan 1 a rhaglenni Ewropeaidd sydd yn gysylltiedig ag ef.

### Gwahodd Cyngor Prydain-Iwerddon i Gaerdydd

**C9 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddilyn esiampl ei ragflaenydd ac estyn gwahoddiad twymgalon i Gyngor Prydain-Iwerddon gyfarfod yng Nghaerdydd? (OAQ4052)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Cyngor Prydain-Iwerddon wedi ei atal ar hyn o bryd, fel y mae'r sefydliadau eraill a sefydlwyd gan Gytundeb Belfast. Os a phan ddaw'r ataliad i ben, fodd bynnag, byddwn yn gryf o blaid cynnal cyfarfod o'r cyngor yng Nghymru.

### Hybu Statws a Phroffil Cymru

**C10 William Graham:** Beth mae'r Prif Ysgrifennydd yn ei wneud i hybu statws a phroffil Cymru? (OAQ4055)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Un o'n hamcanion yw hybu proffil a dylanwad Cymru ac mae nifer o fesurau ar y gweill eisoes i gyflawni'r amcan hwnnw.

Ein bwriad yw hybu Cymru fel lleoliad o'r radd flaenaf er buddsoddi, cynhyrchu, byw, astudio ac adeiladu bywyd proffesiynol a phersonol. Mae swyddogion eisoes yn gweithio gyda'r cyrff a'r asiantaethau allweddol yn y sector cyhoeddus i ddatblygu strategaeth fwy cydlynol a chyd-drefnus i hybu proffil Cymru, gan gynnwys datblygu amrediad o ddeunydd hyrwyddo blaengar o ansawdd uchel, a chymryd rhan mewn rhaglen o ddigwyddiadau tramor. Gobeithiaf gynnull cyfarfod cyn hir o'r asiantaethau allweddol sydd yn gysylltiedig â hyrwyddo Cymru er mwyn trafod sut y gellir datblygu'r gwaith hwnnw ymhellach.

Gwelsom nifer o ymweliadau gan wleidyddion, swyddogion a chyrff tramor dylanwadol ers creu'r Cynulliad. Mae ymweliadau o'r fath yn rhoi cyfle delfrydol i ddangos yr hyn sydd gan Gymru i'w

gynnig, a disgwyliaf weld a byddaf yn parhau i annog llawer mwy o ymweliadau o'r fath wrth i'r diddordeb yn yr hyn sydd yn digwydd yng Nghymru gynyddu fwyfwy.

Mae penderfyniad y Cynulliad i ymuno â Chanolfan Ewropeaidd Cymru, a sefydlu presenoldeb uniongyrchol ar lefel swyddogol ym Mrwsel eisoes wedi ennyn diddordeb aruthrol a bydd yn rhoi cyfle i Gymru ddylanwadu ar ganol Ewrop. Parhawn i ymchwilio i gyfleoedd newydd a manteisio ar y rhai presennol er mwyn hybu Cymru.

### Organebau wedi'u Haddasu'n Enetig

**C11 Peter Black:** Pa ymchwil a gynhaliwyd i'r effaith ar ddelwedd Cymru ac ar y gwaith o hyrwyddo cynnyrch Cymru wrth i'r Cynulliad gymryd safbwynt gwahanol i weddill Prydain ar organebau wedi'u haddasu'n enetig? (OAQ4042)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni wn am unrhyw ymchwil o'r fath. Yr wyf yn awyddus i hybu delwedd gadarnhaol o Gymru fel cartref i ddiwydiant uwch-dechnoleg ac i hybu ansawdd cynhyrchion o Gymru yn y farchnad ryngwladol.

### Hybu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**C12 Christine Humphreys:** Pa gamau y bydd y Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i hybu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o fewn Cymru a thu hwnt? (OAQ4058)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae hybu'r Cynulliad yn sylfaen i'm holl weithgareddau a rhai fy nghydweithwyr yn y Cabinet yma yng Nghymru, yng ngweddill y DU a dramor. Mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom fel Aelodau i hybu'r Cynulliad ar bob cyfle.

### Twristiaeth Ddiwylliannol (Economi Cymru)

**C13 Janet Davies:** Pa gyfraniad y mae twristiaeth ddiwylliannol wedi'i wneud i economi Cymru? (OAQ4050)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn 1998 amcangyfrifwyd bod twristiaeth ddiwylliannol wedi cyfrannu ychydig dros £100 miliwn i economi Cymru.

### Meithrin Parch Rhyngwladol i Gymru

**C14 Cynog Dafis:** Sut mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu meithrin parch rhyngwladol i Gymru? (OAQ4053)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfeiriaf at yr ateb a roddais yn gynharach heddiw i William Graham (OAQ4055).

### Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd

**C15 Alun Cairns:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn fodlon gwneud datganiad ar y ffaith bod Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn cael ei ddirwyn i ben, o safbwynt ei effaith amgylcheddol ac economaidd a'i gyfraniad yn y dyfodol i ffyniant Cymru? (OAQ4054)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bu dadl yn y Cynulliad ar 7 Mawrth ar ddirwyn i ben CDBC. Mae'r trefniadau olynu'n rhoi cyfle i'r cyrff olynol ychwanegu at gyflawniadau'r Gorfforaeth.

### Arian Sengl (Economi Cymru)

**C16 David Davies:** A fydd arian yn cael ei neilltuo yng Nghymru ar gyfer dosbarthu gwybodaeth yn canmol manteision arian sengl i economi Cymru? (OAQ4041)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni neilltuwyd arian yng Nghymru ar gyfer gwybodaeth sydd yn hysbysebu manteision neu anfanteision yr arian sengl Ewropeaidd.

Sefydlwyd tasglu busnes, a gynhelir gan y Cynulliad, yn Nhachwedd 1998 i hybu a chynghori ynghylch y bygythion a'r cyfleoedd i fusnesau o'r arian sengl newydd. Nid yw'r tasglu'n ymwneud â manteision neu anfanteision yr arian sengl neu a ddylai'r DU ymuno ai peidio.

**Hybu Delwedd Cymru (Buddsoddwyr Rhyngwladol)**

**C17 Ieuan Wyn Jones:** Sut mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu hybu delwedd Cymru ymhlith buddsoddwyr rhyngwladol? (OAQ4049)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Parheir i hybu Cymru ymysg mewnfuddsoddwyr fel gwlad a chanddi, ymysg pethau eraill, seilwaith diwydiannol aeddfed a chadarn sydd yn amrywiaethu ymhellach, hinsawdd fusnes gadarnhaol, gweithlu o'r radd flaenaf, cysylltiadau trafnidiaeth rhagorol â marchnadoedd domestig a rhyngwladol a sylfaen cyflenwi cydrannau ragorol.

Bydd Awdurdod Datblygu Cymru'n parhau i arwain wrth hybu Cymru ymysg mewnfuddsoddwyr drwy ei raglen farchnata helaeth a drwy gynrychiolaeth ehangach mewn marchnadoedd tramor, yn enwedig yng Ngogledd America, sef prif ffynhonnell y cyfleoedd mewnfuddsoddi uwch-dechnoleg a busnes electronig.

**Datblygu Polisi (Materion Trawsbynciol)**

**C18 David Lloyd:** Sut mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu sicrhau fod materion trawsbynciol yn chwarae rôl allweddol ym mhob maes o ddatblygu polisi? (OAQ4048)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Rhoddwyd cyfrifoldebau arweiniol i bob Ysgrifennydd Cynulliad er mwyn sicrhau bod materion trawsbynciol penodol yn llunio ein hymagwedd at bolisi. Ymysg y tasgau penodol i gyflawni hyn y mae mapio ein perfformiad cyfredol ar y themâu; sefydlu cyrff partneriaeth allanol a rhwydweithiau i brofi a goleuo ein perfformiad yn y dyfodol; a darparu hyfforddiant ac arweiniad newydd i staff y Cynulliad.

**Partneriaethau rhwng Busnesau ac Ysgolion**

**C19 Gareth Jones:** Sut mae'r Prif Ysgrifennydd yn annog busnesau i greu partneriaethau gydag ysgolion? (OAQ4047)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae partneriaethau effeithiol rhwng cyflogwyr ac ysgolion yn chwarae rôl bwysig wrth baratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith. Mae'r Cynulliad yn comisiynu cynghorau hyfforddi a menter i hybu amrediad o gysylltiadau rhwng addysg a busnes sydd yn cynyddu dealltwriaeth pobl ifanc o fusnes a menter. Mae'r amrediad o weithgareddau a gynhelir gan gyflogwyr yn eang ac yn cynnwys darparu profiad gwaith, cymorth wrth gyflwyno'r cwricwlwm, mentori pobl ifanc a darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am fusnes a menter. Yn y flwyddyn gyfredol mae'r Cynulliad wedi darparu £3.5 miliwn i gynghorau hyfforddi a menter i hybu cysylltiadau rhwng addysg a busnes.

Mae'n ofynnol i gynghorau hyfforddi a menter weithio gyda phartneriaethau addysg busnes lleol er mwyn annog cyflogwyr i gymryd rhan. Maent hefyd yn meithrin cysylltiadau â chyflogwyr drwy ddarparu cymorth ymarferol gan gynnwys cyngor ar gynnal asesiadau iechyd a diogelwch sydd yn gysylltiedig â phrofiad gwaith. Yn 1998-99 yr oedd dros 22,000 o gyflogwyr yng Nghymru wedi darparu cyfleoedd profiad gwaith a dros 1,000 o gyflogwyr wedi rhoi cymorth i ysgolion wrth gyflwyno gwyddoniaeth a thechnoleg. Nodir manylion am yr amrediad o weithgareddau a gefnogir yn yr adroddiad blynyddol ar berfformiad cynghorau hyfforddi a menter yn 1998-99, sydd ar gael ar fewnrwyd y Cynulliad.

## Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

**C20 Alison Halford:** Yn ystod y mis diwethaf, pa gyfarfodydd y mae’r Prif Ysgrifennydd neu’r cyn Brif Ysgrifennydd wedi’u cael gydag awdurdodau lleol, awdurdodau’r heddlu neu’r Swyddfa Gartref i drafod hynt rhoi Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ar waith? (OAQ4040)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni chefais unrhyw gyfarfodydd ag awdurdodau lleol, awdurdodau’r heddlu neu’r Swyddfa Gartref i drafod y cynnydd wrth roi Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ar waith, ac nid oedd fy rhagflaenydd wedi cynnal unrhyw gyfarfodydd o’r fath yn ystod Chwefror ychwaith. Fodd bynnag, cyfarfu â’r pedwar Prif Gwnstabl yng Nghymru fis Rhagfyr diwethaf, a pharheir â’r ddeialog honno. At hynny, bydd Peter Law, y rhoddais cyfrifoldeb iddo dros leihau troseddu oddi mewn i’r Cynulliad, yn cyflawni ymrwymiadau a fydd yn rhoi cyfle iddo gyfarfod â llawer o’r chwaraewyr allweddol ym maes diogelwch cymunedol.

## Canolfan Ewropeaidd Cymru (Cyllid gan y Cynulliad)

**C21 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ynghylch y modd y mae’r Cynulliad yn cyllido Canolfan Ewropeaidd Cymru? (OAQ4062)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Y ffi am aelodaeth y Cynulliad o Ganolfan Ewropeaidd Cymru am y flwyddyn ariannol nesaf—2000-01—fydd £189,000. O Ebrill eleni, bydd y Cynulliad hefyd yn rhentu lle ar gyfer swyddfa gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru ar gyfer ei gynrychiolaeth ym Mrwsel am rent blynyddol o £25,000.

## Map Ardaloedd a Gynorthwyir (Cymeradwyaeth Ewrop)

**C22 Elin Jones:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar unrhyw drafodaethau sydd wedi’u cynnal ynghylch y camau tuag at gael cymeradwyaeth Ewrop i fap ardaloedd a gynorthwyir? (OAQ4060)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyflwynodd Llywodraeth y DU ei chynigion ar gyfer rhanbarthau cymorth newydd i’r Comisiwn Ewropeaidd fis Gorffennaf diwethaf. Ers hynny, bu Llywodraeth y DU mewn trafodaeth â’r Comisiwn, ac mae’r Cynulliad wedi cymryd rhan ar bob cam. Cyfarfûm â swyddogion y Comisiwn a siaredais â Stephen Byers yn yr Adran Masnach a Diwydiant yr wythnos diwethaf i drafod y sefyllfa bresennol. Byddaf yn cyfarfod â Mr Byers eto tua diwedd y mis. Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi’r map newydd gynted ag y bo modd.

## Diffygion Technoleg Gwybodaeth

**C23 Karen Sinclair:** Pa fesurau fydd gan y Prif Ysgrifennydd i sicrhau y bydd diffyg ar y technoleg gwybodaeth, megis yr un a effeithiodd ar linellau gwasanaeth cyrchiad pell o 25-29 Chwefror 2000 ac, i raddau llai, y rhwydwaith fewnol, yn cael ei ddatrys yn gyflymach yn y dyfodol? (OAQ4063)

Methodd y llinellau gwasanaeth cyrchiad pell o ganlyniad i fethiant darparwr gwasanaeth y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Cynulliad. Galwyd am esboniad ar lefel cyfarwyddwr gan y cwmni perthnasol a deallaf fod y cwmni’n bwriadu, gyda chytundeb swyddogion y Cynulliad, rhoi mesurau ar waith sydd yn sicrhau nad yw’r Cynulliad yn profi’r fath ohiriad eto. Arhosaf am ganlyniadau eu harchwiliadau.

Methodd y rhwydwaith mewnol o ganlyniad i fethiant uned system awyru. Mae unedau awyru symudol wrth gefn wedi eu prynu i’w defnyddio fel uned wrth gefn a chywirwyd yr uned awyru a oedd wedi methu. Hefyd, cysylltwyd yr unedau â system fonitro a larwm hirbell er mwyn sicrhau darganfyddiad cynnar o unrhyw broblemau tymheredd yn y dyfodol.

Mae swyddogion wedi bod yn edrych ar y peryglon posibl a allai wynebu y wasanaethfan TG yma ac ym Mharc Cathays. Cyn hir byddant yn cynnig atebion i wahanol fathau o fethiant neu fygythiadau. Bydd rhain yn cael eu hystyried ac yna’n dod yn rhan o gynllun dilyniant busnes drwy’r Cynulliad cyfan.

**Polisïau’r Cynulliad (Effaith Deddfwriaeth Ewropeaidd)**

**C24 Peter Rogers:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar effaith deddfwriaeth Ewropeaidd ar bolisïau’r Cynulliad? (OAQ4077)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Adran 106 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi ar ddeall bod rhaid i’r Cynulliad, wrth gyflawni ei swyddogaethau, weithredu’n unol â chyfraith y Gymuned Ewropeaidd, ac felly bydd oblygiadau’n aml i bolisïau’r Cynulliad o newidiadau mewn deddfwriaeth Ewropeaidd. Mae’r Ysgrifenyddion Cynulliad yn cynnal arolygon o’r meysydd polisi y maent yn gyfrifol amdanynt er mwyn asesu’r modd y mae datblygiadau a deddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd yn effeithio arnynt. Gofynnwyd i bob un ohonynt gyflwyno adroddiad i mi ar y meysydd polisi oddi mewn i’w portffolios.